

Jeremy Miles AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Tachwedd 2020

Annwyl David

Diolch am eich llythyr ar 23 Hydref. Rwy'n gwerthfawrogi'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu a bydd yn werthfawr inni yn ein hymdrechion parhaus i baratoi Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio Ewropeaidd.


Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gynllunio ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, fel yn ystod y cyfnod o gynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb. Ond fel y gwyddoch, mae'r economi eisoes o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig a gwyddom fod busnesau, rhanddeiliaid a dinasyddion Cymru yn ei chael hi'n anodd ystyried beth fydd effaith diwedd y cyfnod pontio arnyn nhw. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio, sy'n grynodeb lefel uchel o'n gwaith i liniaru effeithiau negyddol y newidiadau sylweddol yn ein perthynas â'r UE cyn belled ag y bo modd. Mae'r ddogfen hon hefyd yn adlewyrchu cyd-destun COVID a'n 'fframwaith adfer'.

Wrth gwrs, mae'n hanfodol bwysig bod Llywodraeth y DU yn llwyddo i sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r negodiadau cyn diwedd y cyfnod pontio, ac rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU ynglŷn â hyn. Fel yr ydych wedi'i grybwyll, mae'r ansicrwydd ynglŷn â'r canlyniad yn y pen draw yn creu anawsterau o ran paratoi sectorau a gwyddom fod hyn ar ben yr anawsterau sy'n eu hwynebu eisoes. Mae Llywodraeth Cymru'n deall hyn ac yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod pob sefyllfa bosibl, yn ogystal ag effaith barhaus COVID, wedi'u hystyried, a'n bod ni'n cynllunio ar eu cyfer cyn 31 Rhagfyr 2020. Bydd gwrando ar farn rhanddeiliaid allweddol a chyfathrebu yn glir ac yn gyson gyda nhw yn hwyluso'r ymdrechion i sicrhau parodrydd ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ein gwaith paratoi.

Fel y gwyddoch, mae ymgysylltiad Llywodraeth y DU gyda ni wedi bod yn anfoddhaol iawn, ond mae Llywodraeth Cymru'n parhau i wneud popeth posibl i sicrhau bod lles Cymru wedi'i gynrychioli yn y negodiadau parhaus, yn ogystal â gweithio yn ddiflino ar baratodau. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch sicrhau chi a'r pwyllgor bod y meysydd pryder a nodwyd yn eich trawsgrifiad yn feysydd sydd eisoes wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru. Mae gweithgareddau perthnasol i liniaru pryderon wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio a gyhoeddwyd ar 11 Tachwedd.

Diolch eto am rannu'r wybodaeth hon.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular mark followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition